


Gosod Cleient VPN AnyConnect Cisco

Nodiadau pwysig:


Mae'r broses osod ar gyfer cleientiaid Symudedd Diogel AnyConnect Cisco (VPN) newydd bellach yn cael ei gwneud drwy wefan a ddarperir gan y gwasanaeth, a gall y porwr gwe a ddefnyddir wrth osod y cleient ar y system effeithio ar y broses osod.

Ar ddyfais Apple MacOS arferol, yr unig opsiwn yw caniatáu i'r gwe-osodwr awtomatig fethu ac yna lawrlwytho'r feddalwedd â llaw.

Mewn porwr gwe, ewch i <https://vpn.southwales.ac.uk>



Mewngofnodwch gyda'ch enw defnyddiwr a chyfrinair y **Brifysgol**.




Bydd y broses nawr yn ceisio gosod y cleient VPN ar y cyfrifiadur yn awtomatig gan ddefnyddio Java i symleiddio'r broses osod.

Nodyn: Mewn sawl achos, yn dibynnu ar gyfluniad y porwr, gall y prosesau hyn fethu. Os felly, bydd y broses osod awtomatig yn methu ac yn cynnig eich bod yn lawrlwytho'r cleient.




Bydd ffenestri â negeseuon amrywiol yn agor i ddangos y cynnydd a gofyn am ganiatâd i elfennau gael eu rhedeg.

Yn yr achos hwn, cliciwch **'Allow'**



Yn yr enghraifft hon, fe wnaeth y gosodwr sy'n seiliedig ar y we fethu.


Mae'r sgrin hon nawr yn caniatáu i chi lawrlwytho'r cleient a'i osod â llaw. Cliciwch 'AnyConnect VPN' i lawrlwytho'r meddalwedd cleient.




Lawrlwythwch y cleient a'i osod fel y byddech yn ei wneud fel arfer ar gyfer unrhyw gymhwysiad o'r math hwn, ar gyfer eich fersiwn OS chi.



Cynhwysir enghraifft arferol isod.

Yn yr achos hwn, bydd rhedeg Mac OS Snow Leopard (10.6), clicio ddwywaith ar y ffeil .dmg sydd wedi'i lawrlwytho yn gosod y ffeil lluniau ac yn agor y ffenestr ganlynol:





Cliciwch ddwywaith ar **.pkg** a bydd y ffeil pecyn yn dechrau gosod y cleient VPN.






Mae'n debygol y gofynnir i chi gytuno i'r cytundeb trwyddedu.

Cliciwch 'Agree'




Ar ôl cwblhau'r broses osod, gellir cau/alldaflu'r ffenestr **.pkg** a'r pwynt gosod **.dmg**.

Nawr, bydd y gosodwr wedi creu eicon cleient Symudedd Diogel AnyConnect Cisco mewn is-ffolder **Cisco** yn y ffolder 'Applications' (a ddangosir isod). Cliciwch ar yr eicon i ddechrau'r cleient VPN newydd.



Teipiwch **vpn.southwales.ac.uk** yn y blwch a chliciwch 'Connect'



Teipiwch eich enw defnyddiwr a chyfrinair **PRIFYSGOL**.
Cliciwch 'OK'



Ar ôl proses ddilysu lwyddiannus, bydd y ffenestr a ddangosir gyferbyn yn cau, gan adael eicon tasgau bar AnyConnect newydd.



Nawr gellir defnyddio'r eicon newydd hwn i agor ffenestr y cleient, i gysylltu a datgysylltu o'r gwasanaeth VPN.